# y dinesydd

Chwefror 2000 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 252


CAERDYDD a'r Fro

**Urdd 2001**

## Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2001: Llywyddion, Testunau, Gwobrau

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cydnabod cyfraniad wyth o bobl o'r brifddinas i Fudiad yr Urdd ac i'r iaith Gymraeg yn y dalgylch trwy eu codi'n Llywyddion Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd a'r Fro 2001. Yr wyth yw **John Albert Evans, Peredur Evans, Tom Evans, Howard Goodfellow, Alun Guy, Ethni Jones, Gwilym Roberts a Malcolm Thomas.**

Hoffai Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod ddiolch i bawb ar bwyllgorau'r Eisteddfod am eu gwaith caled yn gosod y testunau at ei gilydd. Mae'r Rhestr Testunau bellach yn y wasg. Fe'i cyhoeddir yn ystod Gŵyl y Cyhoeddi, 5-7 Mai 2000.

Pe dymunai unrhyw unigolyn, ysgol neu gymdeithas roi prif wobr yn yr Eisteddfod, yr ydym yn dal i chwilio am rywun i roi: Y Gadair; Medal y Cymry Cymraeg o Ddewis (= Dysgwyr); Y Fedal Gelf; Dylunio a Thechnoleg; Medal y Prif Wyddonydd. Pe hoffech gynnig rhoi un o'r uchod, cysylltwch â Helen Wynne Daniels, Trefnydd yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Canolfan Agenda, Stryd y Parc, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 3YE (01554 880890).



*Nia Rhosier, cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas y Cymod, yn plannu coeden ger y Deml Heddwch i gofio'r heddychwr mawr, George M. Ll. Davies, a fu farw 6 Rhagfyr 1949. Yn y llun hefyd, gwelir y Parch E. H. Griffiths, cofiannydd G. M. Ll. Davies, ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Cymdeithas y Cymod, Awel Irene a'r Parch. Alma Roberts.* Llun: Robin Griffith.



*Havard Gregory yn cael cymorth tri o blant Eglwys Minny Street i anfon sbectols i Fadagascar.* *Gweler tud. 5* Llun: Robin Griffith

## Mesur Llwyddiant y Cynllun Iaith

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerdydd yn Hydref 1997 ac ers hynny mae'r Cyngor Sir wedi bod yn ymdrechu i gynnig gwasanaethau o ansawdd i bobl Caerdydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau am ffyrdd o wella ein darpariaeth.

Rydym yn monitro gweithrediad ein Cynllun Iaith yn barhaus, ac at y diben hwnnw lluniwyd holiadur i'ch galluogi chi i leisio eich barn a chynnig eich sylwadau am ein gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog. Byddem yn ddiolchgar felly pe baech yn fodlon roi ychydig funudau o'ch amser i lenwi'r holiadur sy'n amgaeedig a'i ddychwelyd yn yr amlen radbost bwrpasol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cynllun Iaith, neu os nad oes holiadur neu amlen yn eich copi chi o'r *Dinesydd*, ffoniwch Owen Jenkins, Swyddog Gweithredu'r Cynllun Iaith, yng Nghanolfan Ymchwil Caerdydd ar 01222 873204.

# Y Dinesydd

**Chwefror 2000, Rhif 252.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 24 Chwefror:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ. (Ffôn: 628754) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-418270 e-bost: mennagwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 404906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................

.......................................... Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

### FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................


.......................................... Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 14** **Chwefror 2000**



**Ar Draws**

1. Aderyn yn troi tair o'r gwely (5,1,5)
8. Cant wedi darllen yn Lloegr am y bydysawd (5)
9. Ysgubo o gwmpas Steffan a'i fflangellu gynt (7)
10. Cynnwys ci o'r Ffôr wedi gwylltio (7)
11. Diwedydd ar bob golwg (5)
12. Angerdd yn ffynhonnell ynni i bum cant (4)
14. Offeryn i drin gwallt ar y copa (4)
18. A yw Eric W. rywsut yn perthyn i Rudolf? (5)
19. Nid yn gadarnhaol ond yn ddegol ddyrys (7)
21. Gyrru rhyw ferch i lid blin (7)
23. Partner Tony yn mynd oddi yma yn fyr ar ôl Alun bach (5)
24. 'Ni _ _ _ ___ ddeddfau'r Un
A blannodd reddf dy natur di' (I.D. Hooson) (2,1,8)

**I Lawr**

1. Undeb athrawon yn cwrdd mewn tas yn Venezuela (7)
2. Sefyllian o gwmpas trên o L.A. (7)
3. O diar! - dryswch ar y set hwn (5)
4 (+17) 'Caf droi pryd mynnwyf i aelwyd y ____
Os oes yno glicied, nid oes ___ ___' (Eifion Wyn) (6+3,3)
5. Cyhuddwr rhywbeth yn tyfu yn y lle anghywir mewn amser (7)
6. A oes gyrfa mewn opera sebon? (8)
7. Gorchudd i nerco gwirion (5)
13. A fydd ŵyr ar y copa uchaf? (2,5)
15. Bu i ddoli lwyddo a gwneud yn broffidiol (7)
16. 'Cerddwn gyd â hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cân a ____, fel tyrfa yn cadw gŵyl' (7)
17. gweler 4.
18. Cant a hanner o esgyrn briw (5)
20. Amser goleuo; yn naturiol! (5)
22. Awn o gwmpas rhif yr anniolchgar (3)

**Atebion Croesair 13**

**Ar Draws:** 1. Ar y ddaear; 7. Bosra; 8. Yn ddienw; 9. Emanuel; 10. Gwgu; 12. Sboncen; 14. Didranc; 17. Adwy; 18. Iachusol; 21. Alabama; 22. Neidr; 23. Yn fintai

**I Lawr:** 1. Addysgu; 2. Ymddygiad; 3. Agen; 4. Adwers; 5. Esau; 6. Rhaglen; 7. Bragodi; 11. Blas sur; 13. Cludiant; 14. Daioni; 15. Celain; 16. Gyda ni; 19. Chwil; 20. Mali.

**Croesair Rhif 13**

Derbyniwyd naw ymgais a phedair ohonynt yn gywir. Yr enillydd y tro hwn yw H. O. Hughes, Tan Graig, Pen-lan Llŷn, Pwllheli. Bydd tocyn llyfrau ar ei ffordd i'r gogledd yn fuan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Carys Humphreys, Bangor; Huana Simpson, Y Bont-faen a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Chwefror 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 24 Chwefror.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://www.dinesydd.uk/inux.net/**

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Nofelau Merched yng Nghymru'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' gan yr Athro Jane Aaron, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Gwener, 18 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. John Rowlands (Ficer Eglwys Fair, Yr Eglwys Newydd), yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Gwener, 25 Chwefror**
Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Mount Sorrel am 7.30 p.m. erbyn 8.00 p.m. Gwestai: Y Prifardd Meirion Evans (Archdderwydd Cymru).

**Sul, 27 Chwefror**
Degfed Gymanfa Ganu Flynyddol Arglwydd Faer Caerdydd, yn Neuadd Dewi Sant am 7.30 pm. *Arweinydd:* Glynne Jones. Cymerir rhan gan Gôr Pendyrus a Chôr Ysgol Glantaf.

**Mercher, 1 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Kynric Lewis, Q.C., yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Gwener, 3 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr, Parc Cathays. Manylion pellach: Idwal Hughes (623873).

**Llun, 6 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Parti'r Efail (Arweinydd: Menna Thomas), yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Llun, 6 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd: Gwesty'r Thistle (Gwesty'r Parc) am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Prif westai: Stephen Thomas, Cyfarwyddwr Canolfan Ryngwladol Cymru, Y Deml Heddwch. Cysylltwch â Tony Couch (753625).

**Mercher, 8 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: 'Bant i Batagonia' gan Gerallt a Pat Nash, yn festri Capel y Methodistiaid, Radur, am 7.30 p.m.

**Iau, 9 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Cedars, Llanisien (dros y ffordd i Westy'r Phoenix) am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Eilonwy Jones. Manylion pellach: Valmai Evans (314517).

**Iau, 9 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Anerchiad gan Ieuan Wyn Jones ar 'Yr Eglwys a'r Cynulliad', yng Nghapel y Crwys am 7.30 p.m.

**Gwener, 10 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi, yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Gŵr gwadd: Parch. Ddr Alun Tudur.

**Sadwrn, 11 Mawrth**
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Glantaf: Noson Cawl a Guinness. Manylion pellach 01222-333090.

**Llun, 13 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, dan ofal Falmai Griffiths, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 15 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Pawb a'i Bethau' gan Glenys Morris, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Gwener, 17 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llenyddiaeth Gyfoes Gymraeg a'i Chynulleidfa' gan Dr Angharad Price, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.00 p.m.

**Gwener, 17 Mawrth**
Cwmni'r Gadwyn yn cyflwyno detholiad o gynnyrch llenyddol Eisteddfod Genedlaethol Môn, 1999, yn Eglwys y Crwys am 7.30 p.m. Yr elw at Ymchwil y Galon.

**Gwener, 17 Mawrth**
Twmpath Dawns gan Bwyllgor Dawnsio Gwerin Eisteddfod yr Urdd 2001 yn y Clwb Trydan, Pontcanna.

**Mawrth, 28 Mawrth**
Darlith Goffa G. J. Williams gan Dr Enid Roberts (Bangor), dan nawdd Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m.

**Mercher, 29 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: 'Sŵn y Jiwbili', yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.

**Gwener, 31 Mawrth-Sul, 9 Ebrill**
'Llên y Lli 2000': Gŵyl Lenyddol Ddwyieithog ym Mae Caerdydd dan nawdd yr Academi Gymreig. Manylion pellach: 01222-472266.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at:*
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 628754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## Cydymdeimlwn

- â theulu Gruff Rees, gŵr Nesta a thad Meurig a Lyn, a fu farw ar 3 Rhagfyr yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu Gruff yn flaenor yng Nghapel y Crwys cyn i'r teulu symud i'r Gogledd. Nesta oedd athrawes gyflogedig gyntaf yr ysgol feithrin Gymraeg a oedd yn cyfarfod yn festri Capel y Crwys.
- â Hilda Williams, Yr Eglwys Newydd, ar farwolaeth ei gŵr John Meirion Williams yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ar 3 Rhagfyr.
- ag Elisabeth Davies a'r teulu, Rhiwbina, ar farwolaeth ei mam yn 92 oed ym Mhontyberem ddechrau Rhagfyr.
- â Nesta, Betty a Gwen a'r teulu oll ym marwolaeth eu mam, Katie Davies, gynt o Rydaman, a fu farw yn 97 oed yn ei chartref yn Heol y Felin, Rhiwbina ar 7 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Newydd Betws ac fe'i claddwyd ym mynwent y Capel.
- â Rhian Tilley, Tyllgoed a'i theulu ar golli ei thad Cyril Tilley yn Ysbyty'r Brifysgol ar 27 Rhagfyr.
- â theulu y diweddar Hywel Glyn Jones a fu farw yn sydyn ar 29 Rhagfyr yn 51 oed. Ei dad oedd y diweddar Parchg Glyndwr Jones a fu am flynyddoedd yn weinidog ar Gapel Beulah yn Rhiwbina.
- â theulu y diweddar Edward Prate, Pen-y-lan a fu farw yn 85 oed yn Ysbyty'r Brifysgol ar 10 Ionawr. Bu'r angladd yn Eglwys Dewi Sant ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen (*Thornhill*). Bu'n Ysgrifennydd Cyngor Cymreig Chwaraeon y Gymanwlad a daeth LVO i'w ran yn 1976 i gydnabod ei wasanaeth clodwiw i chwaraeon. Brodor o Abertawe ydoedd ac ar ôl graddio ym Mhrifysgol Cymru Abertawe aeth i Goleg Loughborough i ennill diploma mewn Addysg Gorfforol. Yn 1948 fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd Pwyllgor Canolog Ymarfer Corff yng Nghymru. Bu'n rheolwr i dîm Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad yn Vancouver a bu'n amlwg yn y trefniadau pan ddaeth Chwaraeon yr Ymerodraeth i Gaerdydd yn 1958. Roedd hefyd yn un o sylfaenwyr Undeb Rygbi Ieuectid Cymru ac yn is-lywydd Cymdeithas Gymnasteg Amatur Cymru. Cyn ei ymddeoliad bu'n gyfrifol am weinyddu Cynllun Dug Caeredin yng Nghymru

## Diolch

Diolchwn i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gynnal *Y Dinesydd*: **Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina; Eglwys Ebeneser, Heol Siarl; Eglwys y Crwys; Eglwys y Tabernacl, Yr Ais.**

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lucy, merch Barry John a'i wraig Jan, ar ei phriodas â Meirion Powell yn Eglwys Radur ar 27 Tachwedd.

## Coleg Cerdd a Drama Cymru yn 50 Oed

Cafwyd cyfres o ddigwyddiadau yn ystod 1999 i ddathlu hannercanmlwyddiant sefydlu Coleg Cerdd a Drama Cymru. Fe'i hagorwyd yng Nghastell Caerdydd yn 1949 fel ysgol fechan, ac erbyn hyn y mae 560 o fyfyrwyr cerdd, drama a dylunio yn y Coleg mewn adeiladau pwrpasol ym Mharc Bute. Ymhlith y cyn-fyfyrwyr y mae Lisabeth Miles, Ian Saynor, Gillian Elisa, Siôn Eirian, Iris Williams a Syr Anthony Hopkins.

Un cwmwl ar y dathlu oedd marwolaeth Dr Raymond Edwards ganol Mehefin yn 80 oed wedi cystudd hir a blin. Ef oedd prifathro'r Coleg rhwng 1959 a 1984. Brodor o'r Rhos ger Wrecsam ydoedd ac roedd yn adnabyddus yng nghylchoedd drama Cymru yn ogystal â bod yn siaradwr cyhoeddus penigamp, yn feirniad cenedlaethol, yn ddarlledwr ac yn sefydlydd Cwmni Theatr i Blant Cymru a Chwmni Theatr Myfyrwyr Cymru.

## Gus a'r Llew yn y Cylch

Islwyn Jones oedd ein darlithydd yng nghyfarfod ola'r Cylch Llyfryddol am y flwyddyn, a gwnaeth gymwynas â ni drwy ein hatgoffa am 'Llew Brownhill'. Ni fyddai pawb yn sylweddoli ymlaen llaw mai dyma'r enw a roid i William Llewelyn Williams (1867-1922), yr awdur, cyfreithiwr ac aelod seneddol a aned i deulu o Annibynwyr selog yn ffermdy Brownhill, Llansadwrn, Dyffryn Tywi. Ac yntau'n ŵr ifanc yng Ngholeg y Trwyn Pres, Rhydychen, yn niwedd 1885, roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Dafydd ap Gwilym ynghyd â John Morris-Jones, Edward Anwyl, Owen M. Edwards a J. Puleston Jones.

Llewelyn Williams a sefydlodd gangen gyntaf mudiad Cymru Fydd. Wedi rhai blynyddoedd fel newyddiadurwr yn yr hen Forgannwg a Llundain, daeth yn K.C. ac yna'n Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Fwrdeistrefi Caerfyrddin ac yn agos iawn felly at Lloyd George a Tom Ellis. Gan ei fod yn heddychwr o argyhoeddiad dwfn, pylodd ei gefnogaeth i Lloyd George wrth i'r rhyfel byd cyntaf rygnu yn ei flaen. Roedd yn frwd dros ymreolaeth i Gymru, i Iwerddon ac i Lydaw, ac ni bu neb fwy o blaid yr unigolyn.

Bu'n flaenllaw yng Nghymdeithas y Cymmrodorion a chyhoeddwyd ei ysgrifau i'r gymdeithas hon yn y gyfrol *The Making of Modern Wales*. Yn Saesneg yr ysgrifennodd 'Llew Brownhill' fwyaf; ond roedd cyfle perffaith i'n siaradwr ganolbwyntio ar weithiau Llew Brownhill yn Gymraeg, gyda'i ddawn ddihafal i weld doniolwch cymeriadau a sefyllfaoedd.

I'r gynulleidfa, digon cyfarwydd oedd enwau'r cyfrolau *Gwilym a Benni Bach*, *Gŵr y Dolau* a *Slawer Dydd*, y cyfan o ansawdd bersonol yn ymwneud â chymdogaeth ei gartref, ei febyd yn Llansadwrn, a'i dylwyth. Nid oedd eu hawdur am weld dim yn newid yn null o fyw a hen draddodiadau pobl Llansadwrn. Cwynai fod yr hen fwydydd iach wedi newid a'r hen eisteddfodau lleol hwythau hefyd. Ac wrth fynd â'i gynulleidfa drwy rai o fanylion y cefndir hwn, megis eisteddfodau a chymeriadau'r fro, roedd ein siaradwr yn ei elfen.

Yr unig fath o Gymraeg y teimlai 'Llew Brownhill' yn gartrefol ag ef oedd Cymraeg llafar ei fro; ac fel y mynnai weld ei hen ardal eto yr ysgrifennai. Gymaint oedd ei bortreadau o hen gymeriadau megis Marged y Forwyn yn mynd i Abertawe, a Nat y Gof, yn fyw yn eu tafodiaith a'u disgrifiadau nes i D. J. Williams yntau gydnabod y dylanwad a dderbyniodd o'r ysgrifennu lliwgar yma yng ngwaith 'Llew Brownhill'.

Awr ddifyr a chynhwysfawr iawn, a aeth â ni'n ôl at ŵr a fu mor flaenllaw yn ei gyfnod - ond a anghofiwyd gennym, ysywaeth, i raddau helaeth - a thrwy'r gŵr amryddawn hwnnw at arferion, cymeriadau a Chymraeg rhywiog cefn gwlad hen oes a fu dros ganrif yn ôl.

**Havard Gregory**

## Gŵyl Ddrama'r Tafod

Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Flynyddol Tafod Elái unwaith eto yn Neuadd Llanilltud Faerdre dros y cyfnod 24-26 Tachwedd. Ymddangosodd deg cwmni yn ystod yr Ŵyl gan gynnwys dau gwmni o Ysgol Glantaf, dau gwmni o Gapel y Crwys ac un o Ysgol Plasmawr. Y beirniad oedd yr actor adnabyddus John Pierce Jones ac yn ystod ei feirniadaeth ar ddiwedd yr Ŵyl enwodd Anthony Evans (Y Crwys), Chris Jones (Y Crwys), a Melisa Meri Annis (Glantaf) fel actorion addawol iawn ond dyfarnodd Alun Jones (Rhydfelen) fel actor gorau'r ŵyl. Enillwyd gwobrau gan Gwmni Chweched Dosbarth Llanhari, Ysgol Gyfun Rhydfelen, Cwmni Athrawon Ysgol Plasmawr a Chwmni'r Pentre. Llongyfarchodd y beirniad y deg cwmni ar eu safon a dymunodd yn dda i'r Ŵyl.

## Ysgol yn 40 oed!

Nos Sadwrn, 27 Tachwedd cafwyd dathlu deugeinfed pen-blwydd Ysgol Feithrin Gymraeg Rhiwbina drwy gynnal Swper a Thwmpath Dawns yn Neuadd Goffa Rhiwbina. Daeth tua chant ynghyd a mwynhawyd y noson yn fawr. Hir oes i'r ysgol!

## Siop Dan Evans

Eleni mae siop Dan Evans y Barri, a sefydlwyd gan dad Gwynfor Evans, Llywydd Anrhydeddus Plaid Cymru, yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 oed. Mae'r siop wedi datblygu dros y blynyddoedd o fod yn siop nwyddau haearn i fod yn siop fawr aml-adran. Cyfarwyddwyr y siop bellach yw Geraint Evans ac Alcwyn Prys. Llongyfarchiadau iddynt a hir oes i'r siop!

## AIL EISTEDDFOD SAIN FFAGAN

Bu ail Eisteddfod Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, yn llwyddiant eto eleni. Fe'i cynhaliwyd, 20 Tachwedd, yn neuadd Sefydliad y Gweithwyr, Oakdale, ar safle'r Amgueddfa. Cafwyd cystadlu o safon uchel mewn awyrgylch hwyliog, gydag Islwyn Jones yn Arweinydd. Derbyniwyd 154 o gyfansoddiadau llên a 77 o gynhyrchion celf a chrefft.

Llywydd y dydd oedd yr Athro Hywel Teifi Edwards, ac mewn anerchiad cofiadwy talodd teyrnged arbennig i'r Amgueddfa Werin am ei weledigaeth yn trefnu'r eisteddfod. Hywel Teifi hefyd oedd testun yr englyn a derbyniwyd 13 o englynion gwir ddiddorol. Dyma englyn buddugol W. J. Phillips, Llanbedr Pont Steffan:

**Athro hael ei athrylith - dewisol**
**Dywysog y ddarlith;**
**Diguro yn llunio llith**
**A'i hadrodd â'i ddawn ledrith.**

Enillydd cystadleuaeth y soned i'r Dr Gwynfor Evans oedd y Parchg Denzil John, Caerffili. Dyma'r cwpled clo:

**Gwarchodaist etifeddiaeth ddoe â'th ddawn,**
**Yf dithau nawr o gwpan gobaith llawn.**

Testun cerdd y gadair (model o waith Gwyndaf Breese, un o grefftwyr yr Amgueddfa) oedd 'Cyfres o benillion telyn: Cymry Enwog yr Ugeinfed Ganrif'. Yr enillydd oedd Havard Gregory, Caerdydd.

Cynhelir Eisteddfod Sain Ffagan ar y trydydd Sadwrn ym mis Tachwedd. Dyddiad yr eisteddfod nesaf felly yw **18 Tachwedd 2000**.

**Robin Gwyndaf**



*Havard Gregory gyda'r gadair o waith Gwyndaf Breese a enillodd yn Eisteddfod Amgueddfa Werin Cymru, 20 Tachwedd 1999.*

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS Y TABERNACL (Yr Ais)

### Gwasanaeth y Mileniwm i Gymru

Y Tabernacl a gafodd y fraint a'r anrhydedd o fod yn lleoliad ar gyfer Gwasanaeth y Mileniwm i Gymru ar brynhawn Sul cynta'r milflwydd. Mewn oedfa wedi ei llunio ar ran CYTÛN, rhoddwyd y pwyslais yn ddigamsyniol ar yr hyn sydd yn gyffredin rhwng traddodiadau Cristnogol gwahanol Cymru. Ceisiwyd dwyn sylw at thema fawr Jiwbili 2000, wrth edrych yn ôl ac edrych ymlaen fel eglwysi yng Nghymru. Nid cyfrinach oedd presenoldeb y Tywysog Charles a'i feibion William a Harri a rhai o arweinwyr gwleidyddol y Gymru newydd - Alun Michael, Paul Murphy a Dafydd Elis Thomas yn eu plith. Braf oedd cael eu croesawu i'r Tabernacl ar achlysur mor nodedig er mai siom oedd y ffaith na lwyddwyd i agor drws y festri i'r digartref yn y brifddinas yn y dull arferol ar brynhawn Sul cynta'r ganrif gan fod yr holl gyfarpar ar gyfer darlledu'r oedfa yn llenwi'r ystafelloedd hyn.

Ymfalchïwn fel eglwys yn ein gweinidog, y Parchedig Denzil John, a estynnodd air o groeso ac a gyflwynodd yr alwad i addoli, Luned ac Aled John, a gyflwynodd ddarlleniadau, a Marged Jones a lefarodd Adduned y Mileniwm. Hoffem rannu'r adduned hon â holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* wrth ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd:

*Boed*
*parch i'r ddaear*
*heddwch i'w phobl*
*cariad yn ein bywydau*
*llawenydd mewn daioni*
*maddeuant am ddrygioni'r gorffennol*
*ac o hyn ymlaen*
*ddechrau newydd.*

### Yr Ysgol Sul

Llongyfarchiadau mawr i dîm oed uwchradd y Tabernacl am eu llwyddiant yn rownd rhanbarthol y Cwis Beiblaidd yn gynharach eleni ym Mhen-y-bont. Fe fyddant yn cynrychioli rhanbarth De-Ddwyrain Cymru yng Nghwis Cenedlaethol Cymru a gynhelir yn Aberystwyth ar 26 Chwefror, 2000.

## EGLWYS Y CRWYS

Bu'r cyfnod cyn ac ar ôl y Nadolig yn amser digon prysur yn Eglwys y Crwys. Ddydd Mercher, 1 Rhagfyr, daeth Mrs Alma Carter i'r festri i drin a thrafod blodau gyda Chylch y Chwiorydd. Yr un prynhawn cafodd aelodau y Froderfa gyfle i wrando ar Mrs Valmai Griffiths yn cloriannu y ganrif olaf cyn y mileniwm newydd. Ddeuddydd yn ddiweddarach cynhaliwyd cyngerdd yn y capel i noddi myfyrwyr llai breintiedig o gyfandir Affrica. Y Parchg Cath Williams, gyda chymorth nifer o fyfyrwyr, a drefnodd y noson arbennig hon. Cafodd y Grŵp Merched hefyd gyfle i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni ei gilydd. Daeth nifer dda o'r aelodau i'r festri nos Lun, 6 Rhagfyr, i fwynhau noson dymhorol o gwmpas byrddau llawn, ac ambell garol i roi 'sbeis' ar y noson. Ni fu'r ieuenctid chwaith heb eu dathliadau. Cafodd dosbarthiadau hynaf yr Ysgol Sul gyfle i fwynhau noson o hwyl yr ŵyl yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Mrs Ros Williams, athrawes yr oedran hŷn, a drefnodd yr ymweliad hwn.

Daeth y Parchg Evan Morgan i'r theatr i annerch y chwiorydd a'r Froderfa brynhawn dydd Mercher, 14 Rhagfyr. Cafwyd amser difyr iawn yn ei gwmni yn gwrando arno yn olrhain ei fywyd cynnar yn Llundain, ei wreiddiau yn ardal Cil-y-cwm a'i addysg alwedigaethol yn y Coleg ger y Lli. I ddiweddu cafwyd rhagflas o'r Nadolig uwchben paned o de a 'mins peis'.

Does yr un Nadolig yn gyflawn heb ymweliad Siôn Corn. Yn ôl ei arfer bu'n ffyddlon i blant y festri ar y Sadwrn cyn y Nadolig. Bu hefyd yn hael ei anrhegion tymhorol, heb anghofio bod un milflwyddyn ar ben ac un arall ar fin cychwyn. Trefnwyd y parti gan arolygydd yr Ysgol Sul, Mrs Siân Griffiths, yn cael ei chynorthwyo gan dîm brwdfrydig o athrawon. Yr un tîm a gynorthwyodd Siân i greu gwasanaeth cofiadwy iawn yn y capel y Sul cyn y Nadolig. Yn yr hwyr arweiniwyd y gwasanaeth yn ddeheuig iawn gan Mr Beni Harries; fe'i cynorthwywyd gan Dr Dewi Lewis ac aelodau o'r Gymdeithas.

Fore Sul cyntaf y flwyddyn derbyniwyd saith o ieuenctid yr Eglwys yn gyflawn aelodau mewn gwasanaeth hyfryd a drefnwyd gan y Gweinidog. Fe'i cynorthwywyd wrth yr organ gan Dr Dewi Lewis. Yn dilyn yr oedfa cafwyd ychydig luniaeth yn y festri, cyn i ryw gant ac ugain o'r aelodau ymweld â Stadiwm y Mileniwm i ddathlu a chroesawu y milflwydd newydd mewn gwasanaeth o fawl ar gân.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu Mrs Rowena Price (Llandaf) a fu farw ddydd Nadolig. Cofiwn am bawb sydd mewn hiraeth am anwyliaid a hefyd am y nifer sydd wedi bod yn ddi-hwyl ac mewn ysbyty dros y misoedd diwethaf.

Bu nifer o'r aelodau, ynghyd â phlant yr Ysgol Sul yn frwd eu hymateb i gais Havard a Rhiannon Gregory ddiwedd y flwyddyn am gael sbectol i'w danfon i Madagascar. Erbyn y Nadolig casglwyd dros 1500 o barau o sbectol a bellach maent wedi eu danfon at ein hefaill eglwys yn y Tranvato.

Cafwyd nifer o wasanaethau cofiadwy dros dymor y dathlu. Fore Sul, 19 Rhagfyr, cyflwynwyd gwir reswm dathlu'r mileniwm, gan gynnwys Stori'r Geni, gan ddisgyblion ysgol gynradd yr Ysgol Sul a mawr yw ein diolch i bawb fu'n hyfforddi a chynorthwyo gan sicrhau cyflwyniad arbennig iawn. Yna, ar y nos Sul, gwasanaeth Naw Llith a Charol bendithiol gyda nifer o aelodau yn cymeryd rhan. Fore Nadolig, cafwyd gwasanaeth bendithiol yng Nghapel y Crwys dan lywyddiaeth y Parchg Eifion Powell â phregeth amserol gan y Parchg Cynwil Williams. Yn ychwanegol at wasanaethau'r Sul, cynhaliwyd hefyd oedfa o fyfyrdod ar drothwy'r mileniwm ar brynhawn Gwener, 31 Rhagfyr, wedi ei threfnu gan y Parchg Eifion Powell. Yna, nos Sul, 16 Ionawr, arweiniwyd ni mewn gwasanaeth "dechrau'r mileniwm" arbennig iawn gan ddisgyblion ysgol uwchradd yr Ysgol Sul. Gwerthfawrogwyd eu brwdfrydedd heintus gan gynulleidfa niferus a diolch i bawb fu'n cynorthwy a chyfarwyddo'r oedfa fendithiol hon.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

Newyddion Ebeneser a Bethel ar dud.8.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

## YSGOL Y WERN

### Chwaraeon

Mae Ysgol y Wern wedi mwynhau cystadlu brwd a llwyddiant mawr mewn sawl maes ym myd chwaraeon yn ystod y tymor diwethaf. Chwaraewyd dwy gêm rygbi, un gartref yn erbyn Ysgol Gwaelod-y-garth gydag Ysgol y Wern yn ennill 45-5, a'r llall i ffwrdd yn erbyn Ysgol Coed Glas gydag Ysgol y Wern eto'n ennill y dydd o 5-0. Da iawn fechgyn a da iawn Miss Walters! Mae dyfodol rygbi Cymru yn ddisglair yn eich dwylo chi!

Roedd yn fraint cael Huw Day, Nicholas Atkins, Cai Thomas, Dafydd Pierce Evans a Daniel Phillips o Flwyddyn 6 yn cynrychioli'r ysgol yn nhreialon rygbi Sir Caerdydd. Llongyfarchiadau i'r pump ac yn arbennig i Daniel Phillips a ddewiswyd i gynrychioli'r sir. Chwaraeodd yr ysgol gêm bêl-droed yn ddiweddar yn erbyn Pen-cae. Collwyd y gêm 4-6.

Mae'r merched wedi cael llwyddiant ym myd pêl-rwyd. Chwaraewyd dwy gêm yn erbyn Ysgol Cefn Onn gyda chanlyniad cyfartal o 7 pwynt yr un i dîm A, a thîm B yn ennill 2-0. Chwaraewyd gêm hefyd yn erbyn Ysgol Pen-cae gyda chanlyniad cyfartal 3-3.

Ar 16 Tachwedd bu cystadleuaeth nofio'r Urdd yng Ngerddi Sophia. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Sean Cronin, Daniel Reed, James Maclean a Carl Jackson a fu'n cynrychioli Sir Caerdydd yn y rownd derfynol ym Mangor ar 11 Rhagfyr.

Mewn maes arall, mae Siân Houdmont, disgybl Blwyddyn 6, wedi profi llwyddiant mawr ym myd badminton. Cafodd ei dewis i chwarae dros Gymru yn ddiweddar i'r tîm dan 13 oed ac ym mis Ebrill fe fydd hi'n cael ei phrofiad cyntaf o chwarae ar lefel genedlaethol yn erbyn yr Alban ac Iwerddon. Pob hwyl i ti Siân, a da iawn ti.

### Digwyddiadau eraill

Eleni, yn wahanol i'r arfer fe ddaeth Siôn Corn i'r ysgol i gasglu losin wedi eu lapio'n barod. Fe fu wedyn yn brysur yn eu cludo dramor i blant anghenus.

Cynhaliwyd cyngerdd Adran y Babanod cyn y Nadolig, a chafwyd tri pherfformiad graenus gan y disgyblion oll. Fe'n tywyswyd drwy Stori'r Geni i ddathliadau'r Mileniwm.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r rhieni a fu'n brysur yn gweu ar gyfer tapestri'r ysgol. Fe fydd y tapestri yn cael ei arddangos yn Nôm y Mileniwm yn Llundain, ac yna'n dod nôl atom yn yr ysgol.

## YSGOL MELIN GRUFFYDD

### Brithlen yr Ysgol

Gwnaeth ein hysgol ni a rhai ysgolion eraill dros Brydain frithlen i ddathlu milflwyddiant newydd. Cyn dechrau ar yr holl waith roedd rhaid cynllunio. Cafodd plant Blwyddyn 6 dynnu lluniau a'u cymharu ac fe gawson ni ym Mlwyddyn 4/5 syniadau da o'u lluniau nhw ar gyfer y frithlen.

Ein penderfyniad oedd cynnwys nodweddion o'n hardal leol. Fe wnïon ni'r felin sydd wedi rhoi enw i'r ysgol, y fenyw lolipop, plant yn canu, Castell Coch, bathodyn yr ysgol a phoster Cwpan Rygbi'r Byd ar y cynfas. Mae bag y fenyw lolipop yn agor ac mae darn o bapur newyddion y tu mewn sy'n dweud am gôr yr ysgol yn canu yn Stadiwm y Mileniwm.

Roedden ni'n defnyddio nodwyddau anferth ar gynfas carped. Siôn Davies a Ruairi Wilson oedd y ddau gyntaf i roi pwyth ar y frithlen. Cafodd pawb gyfle i wnïo rhywbeth ac roedd e'n hwyl. Ar ôl gorffen, buom yn edrych ar y llun mawr a meddwl am bethau bach i ychwanegu ato fel bathodyn yr





Urdd, cenhinen Pedr neu bobls gwallt ac yn y blaen. Roedd Mrs Non Evans a Mrs Sandra Semmens yn dda am ein dysgu ni.

Cafodd ein brithlen ni ei harddangos gyda rhai eraill yn Stadiwm y Mileniwm adeg *Songs of Praise* a nawr maen nhw'n mynd â nhw o gwmpas Prydain i'w dangos mewn llawer dinas. Dywedodd rhywun y byddan nhw yn y Dôm hefyd. Fe dynnodd Mrs Robins luniau ohonon ni. Mae rhai ar y tudalen hwn.

**Dyfed Cynan, Siôn Davies, Daneka Stephens, Emily Hinton a Ruairi Wilson.**

# YSGOL GLANTAF



Rhai o blant Ysgol Glantaf ar y Bannau

### Bant â ni i'r Bannau!

Yn Nhachwedd olaf y Mileniwm aeth criw o 27 o blant o Ysgol Gymraeg Glantaf i ganolfan Storey Arms yn y Bannau. Yno am bum diwrnod o dan wyliadwriaeth ofalus yr hyfforddwyr cawsom anturiaethau di-ri yn dringo, ogofeuo, canŵio a llawer mwy. Roedd yn brofiad anhygoel. Roedd hefyd weithgareddau nos fel y llwybr llinyn a cherdded y croestir. Un o'r pethau mwyaf poblogaidd oedd y Kayakio; cafwyd llawer o hwyl yn dysgu sut i badlo ac i wlychu o'ch corun i'ch sawdl!

Ni oedd yn gorfod rhoi'r bwyd allan a glanhau, ac roedd hyn yn amlwg yn brofiad anghyffredin i rai! Roedd hwn yn antur gwych ac rwy'n annog plant ac oedolion i fynd; wnewch chi ddim dyfaru. Hoffwn hefyd ddiolch i'r athrawon - Mrs Burston, Mr Davies a Mr Norton - am drefnu'r cyfle arbennig hwn i ni.

**Gethin James**



Lewis Davies yn ogofeuo ar y Bannau

### Gissela a Glantaf

Rydym ni Flynyddoedd 7, 8 a 9 Ysgol Glantaf, wedi bod yn gwneud llawer o bethau i godi arian i'r plant rydym yn eu noddi. Mae Blwyddyn 8 yn noddi merch o'r enw Gissela, o Ecuador. Rhai o'r pethau a wnaethom i godi arian oedd dysgu enwau 40 o wledydd a'u prifddinasoedd ac wedyn cael prawf arnynt. Fe lwyddon ni i godi £946.82 o bunnoedd.

Mae Gissela yn byw yn Casabel. Mae hi'n un ar ddeg mlwydd oed ac mae'n iach iawn. Mae hi'n hoffi ysgrifennu llythyron a'i hoff bynciau yn yr ysgol yw Mathemateg, Ymarfer Corff a Chelf. Mae hi hefyd yn hoffi gwylio'r teledu ac mae'n helpu gyda'r gwaith yn y cartref. Pan fydd Gissela yn hŷn hoffai fod yn athrawes. Mae hi'n un o deulu o chwech ac yn byw mewn tŷ sydd wedi cael ei rentu. Mae ganddo bedair ystafell ac mae'r to wedi'i wneud allan o wellt.

Rydym ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig noddi plant yn y trydydd byd, iddyn nhw gael yr un cyfle i fyw bywyd iach a hapus â ni. Rydym yn cymryd y pethau sydd gennym yn ganiataol. Felly, fel grŵp o bedair, rydym yn mynd i noddi rhywun arall. Gobeithiwn yn fawr y cewch chi eich annog i wneud yr un peth!

**Hannah Davies, Bethan Griffiths, Maria Davies, Bethan Williams**

### Llwyddiannau yn yr 'UK Senior Mathematics Challenge'

Eleni eto cymerodd yr ysgol ran yn y gystadleuaeth 'Senior Mathematics Challenge'. Dyma lwyddiannau blynyddoedd ucha'r ysgol;

*Tystysgrifau Aur*
Elen Evans (12) - y gorau yn yr ysgol; Rhys Cooper (13)

*Tystysgrifau Arian*
Dafydd Elis (12); Megan Evans (13); Chris Mason (12); Rhodri Hamner (12)

*Tystysgrifau Efydd*
Dafydd Parsons (13); Loen Poole (13); Gwennan Beasley (13); Jenny Thomas (13); Jonathan Shapey (13); Eleri Pound (12); Siôn Wright (11); Gareth Jenkins (12)

Llongyfarchiadau iddynt i gyd!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Gwennan Beasley, Carmen Eynon Soto a Dafydd Parsons ar ennill lle i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn yr haf.



Gissela, y ferch o Ecuador a noddir gan blant Blwyddyn 8 Ysgol Glantaf.

# YSGOL PLASMAWR

## Chwaraeon Rynglysol

Yn ôl traddodiad diwedd tymor Plasmawr, cynhaliwyd y chwaraeon rynglysol. Bu cystadlu brwd ar y cyrtiau pêl-rwyd a'r caeau pêl-droed. Llys Crwys a oedd yn fuddugol yn y cystadlaethau pêl-rwyd gyda Nantlais yn cyrraedd y brig yn y cystadlaethau pêl-droed. Gwobrwywyd chwaraewragedd a chwaraewyr y twrnament. Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol:

**Pêl-rwyd :**

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 7 | Gwennan Walton |
| Blwyddyn 8 | Hannah Stevens |
| Blwyddyn 9 | Laura Gentile |
| Blwyddyn 10 | Gemma Winstone |

**Pêl-droed:**

| | |
|---|---|
| Blwyddyn 7 | Mathew Williams |
| Blwyddyn 8 | Thomas Dalton |
| Blwyddyn 9 | Tom Hume |
| Blwyddyn 10 | Ben Jenkins |

## Pontio Crefydd a Chelfyddyd

Ymwelodd y grwp dawnsio " India Dance Wales " â'r ysgol er mwyn cyd-weithio â disgyblion Blwyddyn 8 Addysg Grefyddol. Ehangwyd ymwybyddiaeth y disgyblion o'r traddodiadau a hanesion Hindŵaidd mewn amryw o ffyrdd diddorol ac yn benodol trwy ddawnsio traddodiadol "Bharat Natyam" a batik. Roedd y profiad yn un gwerthfawr a oedd wedi caniatáu i'r disgyblion werthfawrogi celfyddyd a chrefydd arall mewn modd lliwgar a diddorol.

## Taith Hanes i Wlad Belg

Yn ystod wythnos ola'r tymor ymwelodd yr adran Hanes ag Ypres fel rhan o'u cwrs "Y Rhyfel Byd Cyntaf". Un o brif atyniadau'r daith oedd ymweld â bedd Hedd Wyn ym mynwent "Artillery Wood". Yno roedd y disgyblion wedi rhyfeddu at y rhesi o feddau gwyngalchog yn eiddo i'r milwyr ifainc oedd wedi eu lladd.. Syfrdanwyd y disgyblion hefyd gan y rhestri di-baid o enwau'r milwyr a fu farw heb unrhyw fedd ar " Y Menin Gate". Cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu mwy am y ffosydd ac i weld gwrthrychau o'r Rhyfel Byd yn amgueddfa "In Flanders Field". Roedd pawb yn gytûn fod y daith yn un emosiynol ond gwerthfawr iawn a oedd wedi atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## Diwrnod y Llyfr

Clustnodwyd 10 Mawrth yn Ddiwrnod y Llyfr eleni, a chynhelir gweithgareddau amrywiol ledled Cymru i ddathlu'r achlysur. Am fanylion am weithgareddau yng nghylch Caerdydd, cysylltwch â Hannah Thomas yng nghwmni Cambrensis (01222-257075) neu ewch i wefan Cyngor Llyfrau Cymru (www.cllc.org.uk).

## Telynores Ifanc Dalentog

Llongyfarchiadau gwresocaf i Elin Rees o Benarth, sy'n ddisgybl Blwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Enillodd wobr gyntaf ar ganu'r delyn a'r piano o dan 19 oed yn Eisteddfod Flynyddol yr Amgueddfa Werin a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Daeth Elin hefyd yn drydydd allan o bedwar ar ddeg o gystadleuwyr yng Ngŵyl Delynau Llanrwst ym mis Hydref. Fe'i dewiswyd i ganu'r delyn yno gyda Chôr Telynau Tywyn o dan ofal Dylan Rowlands. Y mae'n ddisgybl i Eluned Scourfield, Sili.

## Llwyddiant Nant Lleucu

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Nant Lleucu, Pen-y-lan, ar fod y Cylch cyntaf yng Nghymru i ennill statws 'Cylch Rhagorol'. Cyflwynwyd Sêl y Cylch Rhagorol iddynt gan Gadeirydd y Mudiad Ysgolion Meithrin, Gwenno Hutchinson, mewn seremoni arbennig ar 10 Rhagfyr. Arweinydd Cylch Nant Lleucu yw Frances Walker.

## Ysgol Newydd y Fro yn Destun Rhaglen

Mae cwmni Cambrensis wrthi'n paratoi rhaglen ddogfen ar ddechreuadau Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri, ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf sir Bro Morgannwg, a fydd yn agor ei drysau am y tro cyntaf ym Medi 2000. Am fanylion pellach am y rhaglen neu'r ysgol, cysylltwch â Tim Pearce (01446-405298).

## Cywiro'r Lolfa

Mae Gwasg y Lolfa wrthi'n paratoi argraffiad 2001 o'u dyddiaduron. Hoffent wybod am unrhyw newidiadau neu gamgymeriadau yn y rhestrau o gyfeiriadau a rhifau ffôn sydd ar flaen y dyddiaduron. Cyfeiriad y Lolfa yw: Y Lolfa, Cyf., Tal-y-bont, Ceredigion SY23 5AP (Ffôn: 01970-832304).

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

**Dathliadau'r Nadolig:** Cynhaliwyd pum oedfa arbennig ym mis Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig, sef dwy oedfa ar y ddau Sul cyn y Nadolig ac oedfa ar ddydd Nadolig ei hun. Bu nifer helaeth o'r aelodau yn cymryd rhan, gan gynnwys un oedfa dan ofal yr ieuenctid ac oedfa arall i gyflwyno pasiant Nadolig y plant. Yn ogystal, cynhaliwyd parti Nadolig yr ysgol Sul ddydd Mawrth, 21 Rhagfyr.

**Priodas:** Priododd Sara Ogwen Williams a Paul Hunter yn Ebeneser ar 19 Tachwedd, 1999. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

**Yr Ysgol Sul:** Mae'r Ysgol Sul yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda dosbarth oedolion yr Ysgol Sul newydd ailgydio eleni o dan arweiniad Mr John Davies.

**Derbyn aelodau ifanc:** Mae'r Gweinidog wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau derbyn gyda nifer o ieuenctid yr eglwys er mwyn eu paratoi ar gyfer aelodaeth gyflawn o'r eglwys.

## BETHEL, RHIWBINA

Cynhaliwyd yr Oedfa Nadolig, 19 Rhagfyr, er gwaetha'r tywydd garw. Methodd llawer â chyrraedd y capel oherwydd y rhew a'r eira ond mwynhaodd y rhai oedd yno oedfa fendigedig. Fe'i trefnwyd gan Mrs Gwenda Francis a Mrs Mair Jenkins - diolch i'r ddwy a hefyd i'r organydd, Richard Elfyn. Derbyniwyd casgliad teilwng iawn tuag at Gronfa Cartrefi'r Plant, yr NCH.

Unwaith eto eleni Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina a drefnodd y Gwasanaeth Noswyl Nadolig. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Gymdeithas a phobl ifainc a phlant y fro a hefyd gan Weinidog Bethel, y Parchg Evan Morgan. Alun Guy oedd wrth yr organ.

Y Gymdeithas hefyd a drefnodd gyngerdd ym Methel ganol Rhagfyr. Cantorion Glan-y-nant fu'n cymeryd rhan dan arweiniad Mrs Meudwen Davies a Mrs Eilonwy Jones yn cyfeilio.

Ac yn olaf dechreuwyd ar gyfres newydd o gyfarfodydd ar foreau Mawrth (10.30 a.m.). Astudiaethau Beiblaidd gydag ambell fore coffi ac o dro i dro mi awn allan am ginio. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Bêl Hirgron



Dyna weddnewid sefyllfa clwb - erbyn hyn mae Caerdydd yn wefreiddiol, nid oes dwywaith amdani. Oddeutu'r Nadolig curasant Bontypridd a Phen-y-bont gartref o ddeugain pwynt yn y Cynghrair gan sgorio chwe chais yn erbyn y ddau ac ildio tri'n unig - a hynny fis ar ôl iddynt ildio chwe chais eu hunain yn Montferrand yn Ffrainc. Talwyd y pwyth i'r Ffrancod yng ngêm gyntaf y ganrif hon trwy ennill o 30 pwynt i 5 (tri chais i un). Y Sadwrn hwnnw yr oedd y cae ar ei waethaf gyda llaid a thywod dros ei hanner, ac yr oedd y clwb yn rhag-weld y byddai'r Ffrancod yn gwrthod chwarae arno, neu o leiaf yn protestio'n groch. Chwarae a wnaethant a chael cweir ac am safon eu tîm nhw yr oeddynt yn poeni yn hytrach nag am y llaid a'r llaca.

Cystal oedd safon Caerdydd, fel y buasent wedi sgorio dau neu dri chais arall ar gae da: yna wyth niwrnod wedyn aethant i chwarae ar gae da, yn Llundain - yn erbyn Harlequins a oedd wedi chwarae gornest gyfartal yng Nghaerdydd ar ddechrau'r gystadleuaeth. Yn honno yr oedd Caerdydd ar y blaen o 16 i 0 ar ôl hanner awr, ond cael a chael oedd hi yn yr ail hanner. Erbyn ymweld â Chae Stoop a enwyd er cof am Adrian Stoop, maswr y clwb amryliw ei grysau, a Lloegr a fu'n bennaf gyfrifol am i Gymru golli'r ornest gyntaf a chwaraewyd ar gae Twickenham yn 1910. Nid wyf yn amau na fyddai Stoop yn chwarae dros ei wlad o hyd pe byddai fyw, ond at yr ornest yng nghwpan Ewrop eleni. Ni phroffwydai'r un gohebydd nad Caerdydd a fuasai'n fuddugol, ond ni ragwelai neb y byddent ar y blaen o 20 i 0 cyn i Harlequins sgorio cais a'i drosi yn niwedd yr hanner. Cofier i Gaerdydd fod yn afradlon iawn gan fethu sgorio o leiaf ddau gais arall yn yr hanner awr gyntaf a bu raid aros dros 26 munud yn yr hanner olaf cyn iddynt ychwanegu at eu hugain pwynt. Daeth y fuddugoliaeth o 30 i 26, beth bynnag, a golygai hynny mai Llanelli a Chaerdydd a chwaraeai yn Rownd yr Wyth Olaf ganol Ebrill - ac ar gae'r Strade.

Clywsom cyn gadael Harlequins y nos Sul honno fod Peter Thomas (Cadeirydd Caerdydd) wedi erfyn ar Lanelli i chwarae'r ornest ar faes y Stadiwm Mawr lle cawsent hanner can mil a mwy - a llawer rhagor o arian i'r ddau glwb wrth reswm. Ni chredwn i Bwyllgor Llanelli bendroni'n hir uwchben y cynnig hwnnw, ac fe grogasid Gareth Jenkins, hyfforddwr Llanelli, pe buasai wedi ei dderbyn. Y Strade amdani felly ac fe geir cyfle, gobeithio, i fwrw golwg ar yr ornest fawr yn y man. Erbyn honno bydd Cystadleuaeth y Chwe Gwlad ar ben, a'r Sadwrn wedi i mi ysgrifennu'r geiriau hyn, cynhaliwyd Prawf ar Sain Helen, Abertawe, er mwyn i Graham Henry a'i gyd-ddewiswyr wneud yn siŵr mai tîm cryfaf y genedl a ddewisir ganddynt. Parthed hyn, rhaid trafod cymhwyster chwaraewyr i chwarae i'r gwledydd, canys byddwn ni cyn bo hir yn gweld rhai'n gwisgo'r crys coch oherwydd i rywun glywed bod modryb wedi ei gweld yn darllen y *Western Mail* rywle neu'i gilydd. Bydd yn rhaid i hyn gael sylw difrifol iawn, ac nid yn unig yn *Y Dinesydd*.

## Pêl-droed

### Pryderon i Gaerdydd a Chynghrair Cenedlaethol Cymru

Ar ôl addo cymaint ym mis cynta'r tymor, mae Caerdydd bellach wedi siomi yn arw ac mae gostwng i'r drydedd adran eto ar ddiwedd y tymor yn bosibilrwydd cryf. Beth yw'r rheswm am hyn? Yn syml, diffyg sgorio yn bennaf ac ansicrwydd mewn amddiffyn sy'n methu delio â pheli ar draws y cwrt cosbi. Yn ei 10 gêm cynghrair ddiwetha sgoriwyd ond 6 gôl ac ildiwyd 14 gôl. Enillwyd ond un o'r gemau hyn, a honno yn erbyn Reading adeg y Nadolig.

'Does yr un sgoriwr naturiol yn y tîm - mae arafwch y blaenwyr yn broblem, ac er rheoli ganol cae yn y rhan fwyaf o'r gemau 'does fawr o gymorth i'r blaenwyr. 'Dyw'r holl ffwdan y tu ôl i'r llenni yn fawr o help 'chwaith - na'r newidiadau parhaus yn y tîm. O ganlyniad yr oedd Caerdydd yn chweched o waelod y tabl wedi colli ar Gae'r Ras a 'does dim dadlau am y frwydr sydd o'i blaen i aros yn yr ail adran er mai cyffredin iawn yw'r safon yn gyffredinol.



O ran Cynghrair Cenedlaethol Cymru, i bob golwg mae'r 'sgrifen ar y pared i fwy nag un clwb, gwaetha'r modd. Yn ddiweddar methiant fu ymdrechion Caernarfon, Conwy ac Inter Cardiff (Caerdydd) i dalu'r chwaraewyr yn llawn. Apeliwyd arnynt i dderbyn gostyngiad, ond gwrthod a wnaethant, ac felly rhaid oedd i'r clybiau ddod o hyd i chwaraewyr eraill, gan fod y gosb o fethu chwarae gêm yn sylweddol. Troi at fyfyrwyr a wnaeth Inter (Caerdydd) - ac ar ôl i Gonwy golli nifer o gyffiniau Lerpwl bydd mwy o gyfle bellach i chwaraewyr o ogledd Cymru lenwi'r bwlch. Ie, ariangarwch yw gwreiddyn pob drwg. Ychydig yn ôl ymddeolodd pedwar aelod o Bwyllgor y Cynghrair - er na dderbyniwyd eu hymddeoliad gan y Pwyllgor.

Fe dystia rhai mai dyma'r ffordd ymlaen i bêl-droed yng Nghymru - Cynghrair Cenedlaethol - a bod y safon yn gwella. Os felly, paham y mae dod o hyd i noddwyr mor anodd a phaham nad yw'r cyhoedd yn barod i gefnogi'r timau? Prin 260 ar gyfartaledd oedd yn gwylio'r gemau ganol Ionawr.

Tybed a ddaw penodiad Marc Hughes â llwyddiant i Dîm Cenedlaethol Cymru a denu'r miloedd yn ôl i'w gwylio? Fe'i penodwyd yn rheolwr y tîm - paham felly yr oedd yn ceisio cymorth Brian Kidd fel hyfforddwr i'r tîm? Onid gwaith rheolwr yw hyfforddi?

**Howard Spriggs**

## Enillwyr yr Urdd

**Nofio Rhanbarthol**

Enillwyr y Tlws Nofio Cynradd oedd Ysgol Gynradd Pen-cae.

**Nofio Cenedlaethol**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yng Ngala Nofio Cynradd Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn Llanelli, 22 Ionawr: Rhys Thomas, Ysgol Pen-cae (3ydd, Nofio Rhydd 50m. i Fechgyn Bl.5 a 6); Luke England, Ysgol Llansannor (3ydd, Nofio Broga 50m. i Fechgyn Bl.5 a 6); Beth Lloyd, Ysgol Pen-cae (2il, Nofio Cefn 25m. i Ferched Bl.3 a 4); Ifan Patchell, Ysgol Melin Gruffydd (2il, Nofio Cefn 50m. i Fechgyn Bl.5 a 6); Mathew England, Ysgol Llansannor (3ydd, Nofio Pili-pala 25m. i Fechgyn Bl.3 a 4); Tîm Ysgol Pen-cae (3ydd, Ras Gyfnewid Gymysg i Ferched Bl.5 a 6).

Llongyfarchiadau hefyd i enillwyr y Gala Uwchradd - manylion yn y rhifyn nesaf.

**Pêl-rwyd**

Enillwyr y gystadleuaeth i ysgolion cynradd oedd Ysgol Marlborough, gydag Ysgol Eglwys Newydd yn ail.

**Pêl-droed**

Llongyfarchiadau eto i Ysgol Eglwys Newydd am ennill y gystadleuaeth bêl-droed. Daeth Ysgol Iolo Morganwg yn ail.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

On'd yw'r adeg yma o'r flwyddyn yn ddiflas? Mae'n gas gen i fis Ionawr a mis Chwefror - y nosweithiau oer a'r diffyg haul. 'Byr yw Chwefror ond hir ei anghysuron', medd y ddihareb. Drwy drugaredd mae mis Chwefror yn llai na'r lleill, ac felly gelwir ef yn 'fis bach' gan rai. Ond mae'r gwanwyn ar y ffordd! Gwelais gennin Pedr mewn gardd wrth ymyl y llyn bythefnos yn ôl, ac mae briallu yn fy ngardd i yn barod.

Mae'n braf ar nosweithiau oer eistedd o flaen y tân a gwylio'r hen focs - er nad oes llawer o werth i'w weld. Ond rwy'n gallu meddwl am ddau eithriad: mae cyfres newydd 'Pam Fi Duw' ar nos Iau, ac mae 'Byd Pws' ar nos Fercher. Rwy'n gwybod bod rhai yn cwyno, ond does dim problem gen i o gwbl am iaith 'Pam Fi Duw'. Mae'n baratoad gwych i ddysgwyr ar gyfer wynebu'r byd go iawn. Does dim rhaid eu hefelychu, wrth gwrs, ond yn y pen draw, beth yw'r ots? Cymraeg maen nhw'n siarad (y rhan fwya' o'r amser, o leia'!) a 'taswn i'n clywed dysgwr yn siarad fel 'na, baswn i wrth fy modd - cael dysgwyr i siarad o gwbl yw'r peth anodd; mae digon o gyfle i wella, i gywiro ac i loywi wedyn.

Yr unig beth sydd yn fy mhoeni i ynglŷn â 'Pam Fi Duw', efallai, yw'r agwedd foesol. Yn yr episôd diwetha', dyna Rhys yn cael ei ddal gan ei rieni yn y gwely gyda merch (a chariad ganddo yn y Rhondda), a'i dad yn ei annog i gymryd pob cyfle, a'i fam yn anhapus achos ei fod wedi cael tatŵ. Ie, dyna'r byd hefyd, ond gall hyn ddylanwadu'n ddrwg ar ein pobl ifanc, ac mae'n llawer mwy anodd ei gywiro na bratiaith.

Nid yw Dewi Pws at ddant pawb, ond yn fy marn i, fe yw'r dyn mwya' doniol yn yr iaith Gymraeg, a gyda'i hiwmor unigryw mae'n dod â phelydr o heulwen unwaith yr wythnos, hyd yn oed ym mis Chwefror.

**Geirfa**
diffyg - lack
anghysuron - discomforts
dihareb - proverb
gelwir - it is called
briallu - primroses
eithriad - exception
cyfres - series
paratoad - preparation
gwych - splendid
wynebu - to face
efelychu - imitate
agwedd - attitude
moesol - moral
annog - to urge
dylanwadu - to influence
pelydr - ray

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon

Mae'r mis bach i lawer yn amser diflas. Yn wir, hwn yw'r mis y cyflawnir y mwyaf o hunanladdiadau ynddo. Ond os ydych yn arddwr nid oes bosib bod yn isel eich ysbryd oherwydd dyma ddechrau'r gwanwyn. Mae'r dydd yn ymestyn a'r bylbiau cynnar fel yr eirlysiau, saffrwm a chennin Pedr bach eisoes yn dangos eu blodau. Mae 'na ryw gyffro a bywyd eto ar ôl y gaeaf. Dyma'r amser i ddechrau hau hadau y tu mewn.

Mae catalogau hadau yn dod drwy'r drws yn Rhagfyr fynychaf a gellir treulio oriau difyr ar noson oer dywyll o flaen y tân yn breuddwydio a dewis. Gellwch brynu hadau rownd y flwyddyn yn y canolfannau garddio ond efallai na fydd y dewis mor eang. Felly prynwch eich hadau nawr ar gyfer eu hau cyn dechrau Ebrill.

Nid oes angen tŷ gwydr na *propagator* i egino'r hadau, fe wna sil ffenest y tro yn iawn. Dewiswch un sy'n cael digon o olau ond heb fod yn llygad yr haul drwy'r dydd. Defnyddiwch gompost hadau neu un amlbwrpas am y canlyniadau gorau. Peidiwch â rhoi gormod o had yn yr un pot. Hidlwch beth compost dros yr hadau i'w gorchuddio, yna rhoi *clingfilm* dros wyneb y pot. Tynnwch hwn unwaith y bydd yr had wedi egino. Rhaid cadw rhai hadau yn y tywyllwch - dilynwch y cyfarwyddiadau ar y pecyn. Gellir gwneud hyn drwy roi *tinfoil* dros yr wyneb yn lle'r *clingfilm*. Trawsblannwch yr egin i botiau mwy unwaith y byddant yn ddigon mawr i'w trin.

Rhan amlaf byddaf yn hau hadau blodau unflwydd sydd ddim ar gael yn gyffredin fel planhigion. Eleni byddaf yn tyfu *Cosmea sonata* (gwyn), *Nicotiana Domino* (coch) a *Rudbeckia Toto* (melyn) ymhlith eraill. Mae'r tri yma yn tyfu tua deuddeg modfedd o daldra, a byddaf yn eu defnyddio mewn gwahanol forderi i roi lliw ychwanegol drwy'r haf tan y rhew cyntaf. Os nad ydych wedi trio o'r blaen, yna dechreuwch gyda hadau mawr fel *nasturtium* - mae'r rhain yn dda ar gyfer plant bach hefyd.

Cewch werth eich arian allan o becyn o hadau, ac os oes gormod mewn un pecyn, yna rhennwch ef â ffrind. Tan y tro nesa, hwyl ar yr hau.

## Digwyddiadau CYD

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00

**Ysgolion undydd**

11 Mawrth: Ysgol Undydd - Canolfan Bedwas - 01222 852538
(am ragor o fanylion ffoniwch 01495 333751)

25 Mawrth: Sadwrn Siarad - Amgueddfa Werin Cymru
10.30 - 4.00
Rhaid cofrestru ymlaen llaw - ffoniwch 01222 874710

*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 01222 312293*

## Dosbarthiadau Gwyddeleg

Cynhelir dosbarthiadau dysgu'r Wyddeleg yn Nhreganna bob nos Fawrth. Am fanylion pellach, cysylltwch â Barry Tobin (01222-343251).

## Ymchwil ar E. T. Davies

Mae Catrin E. Davies, myfyrwraig ôl-radd yn Adran Gerdd Prifysgol Cymru, Bangor, yn ymchwilio i fywyd a gwaith y cerddor E. T. Davies (1878-1969), brodor o Ddowlais a fu'n Gyfarwyddwr Cerdd Coleg Bangor cyn ymddeol i Aberdâr yn 1943. Daeth i amlygrwydd fel cyfansoddwr gyda'i unawd enwog 'Ynys y Plant'. Pe bai rhai o'n darllenwyr ag unrhyw wybodaeth amdano, byddai Catrin Davies yn falch o glywed oddi wrthych. Ei chyfeiriad yw 36 Stryd Fictoria, Bangor, Gwynedd LL57 2HD (Ffôn: 01248-352636 neu 01978-355472).

## Yn galw pobl Dyffryn Clwyd a'r cyffiniau

Pe hoffech gyflwyno gwobr ariannol i Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2001, byddai'r trefnydd, Hywel Wyn Edwards, yn falch o glywed oddi wrthych. Ei gyfeiriad yw Swyddfa'r Eisteddfod, 15 Llain Portland, Dinbych LL16 3LF (01745-818900).

## O GYMRU I CHILE, GYDA DYN Y TYWYDD

Fel un o gyflwynwyr tywydd S4C, mae CHRIS JONES yn un o wynebau mwyaf cyfarwydd y sianel. Ond yng nghanol mis Mawrth fe fydd e'n diflannu o'r sgrîn am bythefnos, a hynny ar gyfer sialens go arbennig - ac achos go arbennig.



Mae Chris, sy'n dod o Aberaeron ond sydd wedi byw yng Nghaerydd ers yn agos i bymtheg mlynedd bellach, ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer taith fwyaf cyffrous ei fywyd - taith gerdded 10-diwrnod drwy Chile i godi arian i'r elusen Mencap.

"Mae'n rhywbeth o'n i moyn neud ers blynydde a beth sbardunodd fi oedd llyfr ddarllenes i flwyddyn a hanner yn ôl, sef hanes taith y cyn-wystlon John McCarthy a Brian Keenan o ogledd Chile i'r de, sef yr union daith rydyn ni'n bwriadu ei gwneud ond ein bod ni'n ei gwneud hi fel arall, gan fynd o'r de i'r gogledd," meddai Chris. "A nawr 'mod i ar fin ei gwneud hi, mae'n gyffrous iawn meddwl y bydda i'n mynd i'r union lefydd roedden nhw'n sôn amdanyn nhw yn y llyfr.

"Mae'r daith yn dechrau yn Tierra del Fuego yn ne Chile ac yn diweddu yn Puerto Natales, ond dwi ddim yn siŵr faint o filltiroedd yw hynny i gyd. Y cwbl mae Mencap, sef trefnwyr y daith, yn gallu dweud yw y byddwn ni'n cerdded am o leiaf 9 awr y dydd am 10 diwrnod, gan godi am 6.30 a.m. bob bore - bydd hynny'n eitha her ynddi ei hun!" ychwanega. "O ran y math o gerdded y byddwn ni'n neud, fe fydd y tir yn weddol wastad i ddechrau ond wedyn fe fyddwn ni'n dechrau dringo i'r mynyddoedd a bydd gofyn sgramblo peth hefyd."

O glywed amserlen fel honno, mae'n dda bod Chris yn ei gyfrif ei hun yn eitha ffit. Mae'n cerdded llawer, yn y Bannau ac ar hyd arfordir Aberogwr yn bennaf, a hefyd yn mynd i'r gampfa'n gyson, yn chwarae sboncen a phêl-droed. Ond tybed sut mae'n teimlo am yr her gorfforol sydd o'i flaen?

"Wrth feddwl am y daith, mae e weithiau'n croesi 'meddwl i, Beth os bydda i'n rhedeg allan o stêm?! Wedi'r cyfan, rwy wedi arfer cerdded 2, 3 neu 4 diwrnod ar ôl ei gilydd ond mae 10 diwrnod yn dipyn gwahanol! Ond o leiaf 'sdim raid i ni gario'n bagiau ni bob dydd - mae rheiny'n cael eu cludo i lle rydyn ni'n aros bob nos," meddai. "Ond rwy'n edrych ymlaen yn ofnadwy ac rwy'n rhag-weld y bydd y trip yn *character-building* iawn!"

Ond os teithio'n ysgafn fydd Chris a gweddill y criw o 60 sy'n mynd, fe fydd e'n sicr yn cario un peth bach gydag ef, sef camera ysgafn, a'r bwriad yw ffilmio dyddiadur o'r daith i 'Heno'. Fe fydd hefyd yn mynd â'i ddyddiadur gydag ef, yn y gobaith o gyhoeddi llyfr o luniau a phrofiadau ar ôl dychwelyd adref. Ar ben hyn oll, mae e hefyd yn gobeithio cysylltu â gwefan S4C yn gyson, fel y bydd modd i bobl nôl yng Nghymru ddilyn ei daith.

Ond dyw teithiau antur ddim yn gwbl ddieithr i Chris Jones. Yn ogystal â wyneb cyhoeddus Chris fel un o gyflwynwyr tywydd S4C, hyfforddiant y tu ôl i'r camera a gafodd e'n wreiddiol a'i brif waith o hyd yw cyfarwyddo. Mae'r gwaith hwnnw wedi mynd â Chris i bob cwr o'r byd - o'r Swistir i Ffrainc, o Hwngari i Ganada, o Gibraltar i Dde Affrica.

"Am bum mlynedd, fe fues i'n ddyn camera oedd yn dilyn tîm *bobsleigh* Gwledydd Prydain, felly roedd hwnna'n eitha profiad. Rwy wedi cael y cyfle hefyd i gymryd rhan mewn llawer o gampau yn ystod fy ngyrfa, fel sgïo dŵr, mynd ar *bobsleigh*, gleidio, felly rwy'n berson eitha anturus o ran natur a wastad yn barod am her," meddai Chris. "A gweud y gwir, licsen i gael y cyfle i gyflwyno llawer mwy a bydden i'n fodlon gwneud unrhyw beth er mwyn cael gweithio neu gyflwyno cyfres antur neu deithio fel 'Byd Pws'. Pwy a ŵyr, efallai y bydd y trip yma'n arwain at gyfeiriadau newydd," ychwanegodd.

Ar 15 Mawrth mae Chris yn cwrdd â gweddill ei gyd-deithwyr yn Gatwick cyn hedfan draw i Santiago, ac yna'n dal awyren arall i Tierra del Fuego. Wrth reswm, mae costau trip o'r fath yn uchel, ac er mwyn sicrhau ei fod yn codi cymaint o arian ag sy'n bosib i Mencap mae Chris yn chwilio am nawdd.

"Mae'n rhaid wrth £2000 jest i dalu'r costau sylfaenol, felly dyna pam rwy'n awyddus i ffeindio cwmnïau sy'n fodlon fy noddi i. Unwaith mae'r gost yna wedi ei hysgwyddo, fe fydd gweddill yr arian wedyn yn mynd i Mencap a dyna yw holl ddiben y trip," meddai Chris, sydd wedi bod yn weithgar iawn gyda'r gwaith o helpu i godi arian i hospis Tŷ Hafan. "Mae Banc Cymru wedi addo peth arian i fi ac mae gwahanol gwmnïau wedi rhoi'r dillad, sach gysgu, bwts ac ati i fi. Ond rwy'n dal i chwilio am ragor!"

Ond tybed sut mae'r tywydd yn Chile ym mis Mawrth? Os dylai rhywun wybod, Chris yw hwnnw! "Fydd hi ddim yn dwym iawn, ond 'sai'n credu y bydd hi'n rhewi 'na chwaith," meddai Chris, sy'n cyfaddef fod 'na lawer iawn o bobl yn tynnu'i goes am y tywydd.

"Mae cael pobl yn tynnu dy goes di ac yn dy feio di am y tywydd yn rhan o'r job, rwy'n ofan!" meddai Chris. "Rwy'n cofio'r noson gyntaf erioed wnes i gyflwyno'r tywydd a wedes i y bydde 'na dipyn bach o law ond dim byd i boeni yn ei gylch. Wel, roedd 'na storm enfawr o fellt a tharanau y noson honno - chlywes i ddim diwedd y peth am sbel!"

Ond tywydd cyfnewidiol Cymru fydd y peth diwethaf ar feddwl Chris rhwng
15 a 27 Mawrth. Fe fydd e'n rhy brysur yn mwynhau rhai o olygfeydd mwyaf trawiadol y byd yn un o wledydd mwyaf amrywiol y byd - ac yn ceisio sicrhau nad yw'n cael *blisters*!

Os hoffech noddi taith Chris a chodi arian i Mencap, gallwch ffonio Chris naill ar 741346 neu ar ei ffôn symudol, 07880 540305.

## Gwasanaeth Plygain yn yr Amgueddfa Werin

Cafwyd gwasanaeth arbennig Nos Ystwyll, 6 Ionawr 2000, yng nghapel Pen-rhiw yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan. Roedd tua thrigain o bobl yn y gynulleidfa yn gwrando ar garolau plygain ac alawon traddodiadol, rhai ohonynt yn ymestyn yn ôl mor bell â'r 15fed ganrif.

Creodd Bob Evans a Mary Ann awyrgylch arbennig gyda deuawd ar Salm 150, a Bob yn chwarae ar y crwth alaw o lawysgrif Robert ap Huw, 'Cainc Dafydd Broffwyd', a 'Moliant i Dduw'. Cafwyd sŵn arbennig y crwth eto yn nes ymlaen gyda dwy alaw ddawns o'r unfed ganrif ar ddeg. Cyfrannodd grŵp Andrew Dixie a Dai James garol o gasgliad Geraint Vaughan-Jones ar yr alaw 'Dyddiau Hyfryd' a'r ddeuawd 'Bendigedig fyddo Duw' yn y dull o ganu a glywir yng ngwasanaethau plygain Trefaldwyn.

Cafwyd unawdau a deuawdau gan John Albert Evans, Kynrick Lewis, Penny Robinson ac Efa Wulle. Pleser arbennig oedd clywed hen garolau plygain yn cael eu canu gan y gynulleidfa i gyfeiliant tri bachgen dawnus, sef Jonathan, Iestyn a Selyf Shapey. Cyflwynasant hefyd driawd offerynol o alawon Cymreig ar ddwy ffidl a ffliwt.

Diolch i'r Parch. Evan Morgan am ddewis darlleniad mor addas i'r gwasanaeth hwn, sef geiriau agoriadol Efengyl Ioan. Diolch hefyd i John Owen Huws o'r Amgueddfa a sicrhaodd drefniant mor llyfn i'r dathliad hwn o ddyfodiad Crist, a oedd yn ceisio ailgyflwyno'r trysor cyfoethog hwn o ganeuon, sy'n eiddo i'r Cymry ers canrifoedd lawer ond a guddiwyd o dan ormod o alawon Seisnig a chyfandirol.

**Efa Wulle**

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222



## Talon Cymru Cyf.

Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?
I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?

Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynnol
Ffôn 029 2055 5978
e.bost Wyn.Talon@BTinternet.com



Beth am anfon copi
o'r *Dinesydd*
at ffrind trwy'r post
yn rheolaidd?

Llenwch y ffurflen
ar dudalen 2.



# Am y Gorau
## Pa fro sy' orau?

O ganu a dawnsio i greu crefftau a phapuro waliau, bydd wyth o fröydd Cymru 'Am y Gorau' i ddangos eu doniau.




Gyda Dyffryn Aman, Yr Wyddgrug, Bodffordd, Caerfyrddin, Llanarth, Dyffryn Peris, Bro Waldo a Llanuwchllyn i gyd yn cystadlu – mae enw da rhai o ardaloedd enwocaf Cymru yn y fantol!

**Am y Gorau**
**8.00**
**Bob nos Sadwrn**
**yn cychwyn ar 19 Chwefror**

www.s4c.co.uk

S4C